# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2014-2015

Mae Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2015**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o anghenraid yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe

| **Cynghorydd:** | William Evans | Adran Etholiadol: | Pontybrenin |
|---|---|---|---|

| **Portffolio Cabinet/Gweithrediaeth** | Dysgu a Sgiliau (cyn mis Hydref 2014)<br>Gwrthdlodi (o fis Hydref 2014) |
|---|---|

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Cynhaliais gymorthfeydd cyngor yn Nghlwb Pêl-droed Pentre'r Ardd ar ddydd Sadwrn rhwng 11.30am a 12.30pm (o leiaf) gan ymdrin â'r holl faterion/gwynion a gyfeiriwyd ataf mewn modd amserol. Mynychais hefyd gymorthfeydd lleol yr heddlu a chyfarfodydd Cyngor Tref Llwchwr, y mae'r cofnodion ar gael ar wefan y cyngor yn www.llwchwrtowncouncil.gov.uk. Mae'r Cyngor Tref yn gwasanaethu ac yn cefnogi preswylwyr Pontybrenin, Pentre'r Ardd a wardiau Llwchwr, drwy ychwanegu at rai o'r gwasanaethau a ddarperir gan Ddinas a Sir Abertawe. Er enghraifft, cyfleusterau adloniant yn y Neuadd Les, basgedi crog ac arddangosiadau blodau gwyllt, Gorymdaith Lusernau'r Nadolig ac arddangosfa tân gwyllt ar y cyd â Chyngor Tref Gorseinon, darparu seddau cymunedol a dyfarnu grantiau ariannol i achosion teilwng yn ardal Llwchwr.

Lluniais a dosberthais gylchlythyr a oedd yn amlygu materion lleol, a bûm yn ymdrin â nifer sylweddol o alwadau ffôn ac e-byst ar gyfer etholwyr, gan geisio cyngor a chymorth ar amrywiaeth o destunau a chynnig fy nghefnogaeth yn ôl y galw.

Roeddwn yn aml yn mynd am dro yn fy ward ac yn rhoi gwybod i adran briodol y cyngor am ddiffygion megis tyllau yn y ffyrdd, goleuadau stryd wedi'u torri mewn ardaloedd preswyl, arwyddion heol wedi'u difrodi a thipio anghyfreithlon.

Bûm yn ymweld â'r holl safleoedd ceisiadau cynllunio a oedd yn effeithio ar Ward Pontybrenin, sef ymweliadau safle, yn ôl y galw. Cysylltais yn rheolaidd â'r Tîm Heddlu Cymdogaeth lleol yng Ngorseinon gan gyfeirio cwynion preswylwyr megis goryrru, parcio diwahaniaeth, cerbydau modur yn achosi rhwystr diangen ar y briffordd, baw cŵn a sbwriel. Roeddwn hefyd wedi dweud wrth Swyddogion Gorfodi'r cyngor am gwynion o ran mynd yn groes i Orchmynion Rheoliadau Traffig Ffyrdd a chamddefnydd ohonynt (llinellau melyn) gan ofyn iddynt fod yn bresennol yn yr ardaloedd hyn pan fo hynny'n briodol.

## Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau Cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y Cyngor. Mae Cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Dangosir y % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor isod:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 2 | 7 | / | 8 | 88 | % |
| Cabinet | 15 | / | 15 | 100 | % |
| Cyngor | 17 | / | 17 | 100 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth DatblyguPanel | 7 | / | 7 | 100 | % |
| Ariannu Allanol | 3 | / | 3 | 100 | % |
| Fforwm Cyswllt â Myfyrwyr Abertawe | 3 | / | 3 | 100 | % |
| Panel Ymddiriedolwyr | 3 | / | 3 | 100 | % |
| **CYFFREDINOL** | **55** | **/** | **56** | **98** | **%** |

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd

Hyd at fis Hydref 2014, fi oedd yr Aelod Cabinet dros Ddysgu a Sgiliau drwy'r ddinas ac ers y dyddiad hwnnw, rwyf wedi ymgymryd â rôl newydd sef Aelod y Cabinet ac Arweinydd Gwleidyddol dros Wrthdlodi, sy'n un o'r prif flaenoriaethau corfforaethol ar gyfer y cyngor hwn. Mae mynd i'r afael â thlodi a'i effaith ar unigolion, ynghyd â chyrhaeddiad addysgol a thwf economaidd yn hanfodol i gyflawni'n nodau ac amcanion strategol.

Roeddwn hefyd yn aelod o'r pwyllgorau canlynol nad ydynt wedi'u rhestru yn rhan 2 uchod:

Pum Grŵp Llywio Cymunedau'n Gyntaf (Cadeirydd)
Bwrdd Rhaglenni Cymunedau'n Gyntaf. (Cadeirydd)
Grŵp Arweinyddiaeth Cydlyniant Cymunedol
Panel Bwyd a Thyfu Cymunedol
Fforwm Darparwyr Penderi.

***Cyrff Allanol (2014-2015***)

1. Cyngor Ymgynghorol i Fyfyrwyr ar Addysg Grefyddol.
2. Cyfarwyddwr Ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Datblygu Gorseinon. (Cadeirydd)
3. Llywodraethwr Ysgol yn Ysgol Gynradd Tre Uchaf.
4. Llywodraethwr Ysgol yn Ysgol Gynradd Pontybrenin.
5. Cyngor Tref Llwchwr

## Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Ymgysylltais â chynllunwyr a'm hetholwyr ar Strategaeth a Ffefrir y Cynllun Datblygu Lleol a'i effaith enfawr bosib ar symudiad traffig yn y dyfodol yn ardal Pontybrenin a'r cyffiniau. Cynhaliwyd cyfarfodydd cyhoeddus i drafod y 1,600 amcangyfrifedig o dai newydd y cynigir eu hadeiladu yn ardaloedd Pentre'r Ardd a Llewitha dros y 15 mlynedd nesaf.

Cafwyd caniatâd cynllunio bellach ar gyfer adeiladu man codi a gollwng plant yng nghefn Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin, i liniaru parcio diwahaniaeth a thagfeydd ar heol Llwchwr a Glyn Rhosyn yn ystod adegau prysur o'r dydd. Mae'r cyllid ar gyfer y gwaith hwn wedi'i sicrhau a disgwylir i'r gwaith ddechrau ym mis Gorffennaf, yn barod ar gyfer dechrau'r tymor ysgol newydd ym mis Medi, 2015.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

Rwyf wedi bod i'r sesiynau hyfforddi canlynol:

07/04/2015 - Masnachu Pobl ac Ymwybyddiaeth o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant
08/10/2014 - Sut i fanteisio i'r eithaf ar eich tabled/ffôn clyfar
25/03/2015 - Hyfforddiant Cyfryngau a Sgiliau Cyfweliad
07/04/2015 - Sesiwn Ymwybyddiaeth Gwrth-gaethwasiaeth a Masnachu Pobl (1/2 diwrnod)

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Rwyf wedi bod yn ymwneud â'r gwaith parhaus ar gyswllt beicio Pontybrenin o Bentre'r Ardd i Dregŵyr, sydd wedi'i rwystro gan faterion tir cyfreithiol sy'n ymwneud â'r 'Somerset Trust'.

Mae dau ddatblygiad tai newydd (220 o dai) yn Ward Pontybrenin bellach yn mynd rhagddynt ym Meysydd Pontybrenin (Kingsbridge Fields - Persimmon) a Horizon Walk (Barratts). Dyrannwyd y ddau safle hyn ar gyfer datblygiad tai mewn Cynlluniau Datblygu Trefol olynol, yn dyddio'n ôl flynyddoedd lawer.

Defnyddiwyd arian o Lwfans Amgylcheddol y Cynghorydd i wella'r wynebau cerdded ar ddau lwybr troed lleol lle ceir Hawliau Tramwy Cyhoeddus - Llwybr Troed Cyhoeddus 24 ym Mhentre'r Ardd a Rhif 37 yn yr Hen Heol Rufeinig. Mae symiau mawr o gerrig mân wedi'u gosod ac mae mannau draenio dŵr arwyneb wedi cael eu glanhau.

Gosodwyd cwrbyn uwch ger y safle bws ar Heol Abertawe, Pentre'r Ardd, y tu allan i fynwent Pontybrenin, i'w wneud yn haws i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn a phlant mewn cadeiriau gwthio fynd ar y bws. Mae angen gwneud mwy o waith i gael gwared ar ynys draffig fechan sydd ar hyn o bryd yn atal bysus rhag cael mynediad hawdd i'r ardal safle bws benodol.

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**

Cyflog Uwch: £32,000 Aelod y Cabinet dros Wrthdlodi (Dysgu a Sgiliau gynt)

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 29.05.15. |